

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ionawr 2026	0300 200 6565
Amser: 14.00	Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 27)

2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1542 Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain

(Tudalennau 28 – 42)

2.2 P-06-1556 Cyllid gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio pan fydd eu plant dros 9 mis oed

(Tudalennau 43 – 48)

2.3 P-06-1566 Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeddfu i sicrhau bod Gwarchodfeydd Natur Lleol, gan gynnwys Gwarchodfa Natur Leol Cosmeston, yn cael ystyriaeth lawn.

(Tudalennau 49 – 57)

2.4 P-06-1563 Rhoi'r gorau i'r cynllun i wneud Cymru yn "genedl noddfa".

(Tudalennau 58 – 64)

2.5 P-06-1567 Condemnio'r grŵp asgell dde eithafol 'White Vanguard' yng Nghymru, ac ymchwilio iddo

(Tudalennau 65 – 76)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1500 Mae angen arian ychwanegol ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ôl UNSAIN Castell-nedd Port Talbot.

(Tudalennau 77 – 80)



- 3.2 P-06-1522 Cynnull uwchgynhadledd i gyflymu buddsoddi cynaliadwy a moesegol gan bensiynau'r sector cyhoeddus.
(Tudalennau 81 – 91)
- 3.3 P-06-1543 Cadwch uned mân anafiadau Aberteifi ar agor ar benwythnosau
(Tudalennau 92 – 94)
- 3.4 P-06-1544 Dylid cymryd camau brys i wella'r GIG yng Ngorllewin Cymru, a mynd i'r afael â'r argyfwng yn Ysbyty Glangwili.
(Tudalennau 95 – 100)
- 3.5 P-06-1545 Rhoi'r gorau i orfodi plant ysgol i ddadwisgo o flaen staff/cyfoedion mewn ystafelloedd newid 'agored'.
(Tudalennau 101 – 106)
- 3.6 P-06-1561 Cau'r bwlch rhwng y rhywiau ym mhêl-droed menywod Cymru: ariannu cynllun cydraddoldeb cenedlaethol
(Tudalennau 107 – 114)

4 Papurau i'w nodi

- 4.1 P-06-1541 Cynhyrchu Bil Dŵr Glân i Gymru ac Afonydd Cymru.
(Tudalennau 115 – 116)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ysgol Gymraeg Llundain

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2026
Petitions Committee | 26 January 2026

Cyfeirnod: SR25/12887-6

Rhif y ddeiseb: P-06-1542

Teitl y ddeiseb:: Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain

Geiriad y ddeiseb: Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod am dynnu ei grant blynyddol o £90,000 yn ôl o fis Mawrth 2026. Heb y grant hwn, bydd yr ysgol yn cau gan chwalu'r modd mwyaf effeithiol o hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Llundain.

Rhagor o wybodaeth Daw'r grant hwn o strategaeth 'Cymraeg 2050', sy'n anelu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd y £90,000 hwn yn dal i gael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r iaith yn Llundain, ond nid yw wedi rhoi manylion ynghylch sut yn union y bydd yn gwneud hynny. Mae'n amlwg mai'r ffordd orau o hyrwyddo unrhyw iaith yw addysgu'r genhedlaeth nesaf o siaradwyr rhugl. Mae'r ysgol yn dod dros effeithiau COVID ac yn tyfu mewn nifer. Nawr yw'r amser i fuddsoddi yn nyfodol yr ysgol, nid i dorri'r cyllid yn ôl.

1. Cefndir

Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn **ysgol annibynnol i blant meithrin a phlant oed ysgol gynradd**, wedi'i lleoli yn Hanwell ym mwrdeistref Ealing, **Gorllewin Llundain**. Mae'r ysgol yn addysgu drwy **gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg**, gyda'r nod bod disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn blwyddyn 6.



Er ei bod yn ysgol annibynnol ac felly nid oes rhaid iddi wneud hynny, mae Ysgol Gymraeg Llundain **yn cynnig y Cwricwlwm i Gymru**, gan gynnwys y pedwar diben a'r chwe maes dysgu a phrofiad, fel y'u dogfennwyd ar ei **gwefan**.

Ar wefan Ysgol Gymraeg Llundain mae cyfres o **gwestiynau cyffredin**, sy'n cynnwys gofyn i ba ysgol y bydd disgyblion yn mynd ar ôl Blwyddyn 6. Yr ateb a roddir yw: "Mae rhai o'n disgyblion yn symud ymlaen i ysgolion uwchradd lleol yn Llundain; mae teuluoedd eraill yn symud yn ôl i Gymru lle gall y disgyblion barhau gydag addysg Gymraeg."

Mae'r ddeiseb hon wedi'i chyflwyno gan gadeirydd corff llywodraethu'r ysgol.

1.1. Model ariannol Ysgol Gymraeg Llundain

Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn ysgol sy'n codi ffioedd. Y gost yw £4,374 y flwyddyn neu £364.50 y mis (o 2024/25) ar gyfer plant 5 oed a hŷn.¹

Mae'r **ysgol yn dweud** ei bod yn derbyn pob plentyn waeth beth fo gallu'r teulu i dalu'r ffioedd llawn a bod ganddi "gronfa fechan i helpu gyda hyn".

Mae'r ddeiseb yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu £90,000 y flwyddyn i Ysgol Gymraeg Llundain o gyllideb Cymraeg 2050. Mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig (**WSQ96921**) ym mis Gorffennaf 2025 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod Ysgol Gymraeg Llundain wedi cael grant blynyddol o £90,000 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru er 2015. Yn 2022-23, cafodd daliad untro ychwanegol oedd yn gyfystyr â 4% o'i grant blynyddol, sef cyfanswm o £3,600.

Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Senedd **ym mis Gorffennaf 2025 (paragraff 2)** fod Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy nag £1.2 miliwn o gyllid grant i Ysgol Gymraeg Llundain dros y degawd diwethaf.

2. Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet (dyddiedig 18 Rhagfyr 2025) yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi bod **yn ystyried "y ffaith bod niferoedd y disgyblion wedi gostwng" a'i bod yn edrych ar y "dulliau mwyaf effeithlon o gefnogi'r Gymraeg yn Llundain"**. Mae'n dweud bod hyn yn "rhan o'n prosesau gwerthuso a monitro

¹ I blant dan 5 oed, gall grant addysg feithrin yn Lloegr dalu am 15 awr o ddarpariaeth yr wythnos o'r tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn. Gall teuluoedd yn Lloegr fod â hawl i gael hyd at 30 awr o ofal plant / addysg feithrin am ddim yn yr ysgol o oedran cynharach o dan y **cynllun gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio**.

grantiau". Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet (25 Mehefin – paragraff 34) a'r Prif Weinidog (1 Gorffennaf – paragraff 5) wrth y Senedd yn haf 2025 mai **dim ond tua 10 o ddisgyblion oedd ar gofrestr Ysgol Gymraeg Llundain**.

Cytunodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025 i ddarparu **cyllid tan ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025/26** ac ers hynny, **gwahoddwyd yr ysgol i wneud cais am gyllid am dair blynedd arall**. Mae llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud bod hyn i'w ystyried "yn y flwyddyn newydd".

2.1. Polisiâu ynghylch addysg Gymraeg

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol bod Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn cynnwys targed o gyrraedd o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhaid i'r strategaeth hefyd osod targedau ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion categori 'Prif Iaith - Cymraeg', ac ar gyfer cynyddu'r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Dwy iaith" a chategori "Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

Gosodwyd Cymraeg 2050, sef y targed statudol presennol sydd gan Lywodraeth Cymru (a osodwyd yn 2017) gan Ddeddf 2025. Mae'r darpariaethau yn Neddf 2025 sy'n ymwneud ag ysgolion yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig. Mae'r briff hwn yn crybwyll y dylid rhoi awgrym o bolisiâu Llywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg, yn hytrach na'u bod yn uniongyrchol berthnasol i'r ddeiseb hon.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Fel y trafodwyd uchod, bu cwestiynau llafar yn y Senedd ar y pwnc hwn:

- i Ysgrifennydd y Cabinet dros Cyllid a'r Gymraeg ar 25 Mehefin 2025 (paragraffau 29-37); ac
- i'r Prif Weinidog ar 1 Gorffennaf 2025 (paragraffau 1-9).

4. Sylw yn y cyfryngau

Bu rhywfaint o sylw yn y cyfryngau ar y pwnc hwn, gan gynnwys erthyglau gan y BBC ar 19 Mehefin, 1 Gorffennaf a 13 Tachwedd 2025.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio

hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-06-1542
Ein cyf/Our ref: MDFWL/00513/25

Carolyn Thomas MS
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru

18 Rhagfyr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau yn trafod 'Deiseb P-06-1542 - Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain'.

Dros y misoedd diwethaf, fel rhan o'n prosesau gwerthuso a monitro grantiau, mae fy swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Ysgol Gymraeg Llundain. Yn y cyfarfodydd hyn, trafodwyd sefyllfa'r ysgol, y ffaith bod niferoedd y disgyblion wedi gostwng ynghyd â'r dulliau mwyaf effeithlon o gefnogi'r Gymraeg yn Llundain.

Cefais gyfarfod gyda chynrychiolwyr yr ysgol ar ddechrau'r haf ac o ganlyniad fe wnaethom gadarnhau ar 20 Mehefin y byddwn yn dyrannu cyllid hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd 2025-26. Ers hynny, ac fel sy'n wir gyda holl dderbynwyr grant Cymraeg 2050, rydym wedi gwahodd yr ysgol i ymgeisio am grant hyd at dair blynedd o hyd. Bydd y broses gwerthuso yn cymryd lle yn y flwyddyn newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 32
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Deallaf fod y sefyllfa dros y misoedd diwethaf wedi bod yn anodd, ond hyderaf fod y trafodaethau sydd wedi cymryd lle wedi bod yn rai adeiladol ac o ganlyniad parhawn i gydweithio'n agos gyda'r ysgol i gynllunio'n strategol er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ysgol Gymraeg Llundain.

Yn gywir,

A handwritten signature in dark ink, reading "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style. The first name "Mark" is written in a larger, more prominent script than the surname "Drakeford". The signature is contained within a light grey rectangular border.

Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

P-06-1542 Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain

Ymateb i'r Pwyllgor Deisebau yng ngoleuni llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch Deiseb P-06-1542:

"Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain"

Rydym yn croesawu ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ac yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad sydd wedi digwydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, Gweinidogion a chynrychiolwyr Ysgol Gymraeg Llundain dros y misoedd diwethaf.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r dyraniad cyllid a gytunwyd ym mis Mehefin i gefnogi'r ysgol hyd at ddiwedd blwyddyn academiaidd 2025–26, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod yr ysgol bellach wedi cael gwahoddiad i wneud cais am grant o hyd at dair blynedd, yn unol â phrosesau safonol Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn Rhagfyr. Mae hyn yn gam pwysig ymlaen ac yn mynd yn bell tuag at fynd i'r afael â'r pryderon uniongyrchol a godwyd yn y ddeiseb.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn y llythyr o'r rôl ehangach y mae Ysgol Gymraeg Llundain yn ei chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain. Er bod nifer y disgyblion wedi gostwng i lefelau anarferol o isel yn y cyfnod yn dilyn pandemig COVID-19, rydym yn cael ein calonogi gan y ffaith bod y niferoedd bellach yn cynyddu ac fod momentwm clir tuag at adferiad. Rydym yn rhannu hyder Ysgrifennydd y Cabinet y gall yr ysgol, gyda pharhad mewn ymgysylltiad strategol a chefnogaeth, ailsefydlu ei hun fel canolfan ffyniannus ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac fel fflag i'r diaspora Gymreig yn Llundain.

Fel y nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru, bydd sefydlogrwydd tymor hwy yn hollbwysig er mwyn galluogi'r ysgol i ailadeiladu hyder rhieni, cefnogi recriwtio disgyblion, cadw staff a chynnal cynllunio tymor hir effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, bydd canlyniad y broses werthuso grant tair blynedd sydd ar y gorwel yn allweddol wrth benderfynu a ellir gwireddu'r amcanion a ddisgrifir yn llawn.

Wrth i'r trafodaethau barhau, byddem hefyd yn croesawu ystyriaeth yn y dyfodol ynghylch a oes cyfle i ddatblygu fframwaith strategol cliriach sy'n cydnabod rôl darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i Gymru. Yn benodol, gallai hyn gynnwys myfyrio ar sut mae darpariaeth o'r fath yn cyd-fynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â throsglwyddo iaith, addysg a'r diaspora Gymreig, gan gynnwys - ond heb ei gyfyngu i - uchelgeisiau Cymraeg 2050. Credwn fod hwn yn faes a allai haeddu archwiliad pellach dros amser, yn hytrach na bod yn fater sy'n gofyn am benderfyniad ar unwaith.

Pe bai'n llwyddiannus, byddai'r grant aml-flwyddyn arfaethedig yn darparu sefydlogrwydd tymor canolig pwysig ac yn cryfhau'n sylweddol allu'r ysgol i gyflawni yn erbyn y nodau a amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, hyd nes y caiff canlyniad y broses honno ei gadarnhau, credwn y byddai'n briodol i'r Pwyllgor nodi bod y materion tymor hwy

a godwyd yn y ddeiseb yn parhau i fod yn ddibynnol ar y penderfyniad hwnnw, ac felly rydym yn croesawu diddordeb parhaus y Pwyllgor ar hyn o bryd.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ystyried y ddeiseb ac am y cyfle i gyflwyno'r sylwadau hyn.

Yn gywir,

Glenys Roberts

Cadeirydd Llywodraethwyr

Ysgol Gymraeg Llundain

[Er gwybodaeth, rydym wedi atodi dau ddogfen gefndir fer - crynodeb ymchwil sy'n amlinellu rôl Ysgol Gymraeg Llundain yn y gymuned Gymraeg yn Llundain, a diagram sy'n dangos safle yr ysgol o fewn ecosystem Gymraeg Llundain - pe bai hynny'n ddefnyddiol i'r pwyllgor]

Ysgol Gymraeg Llundain

Parents and Alumni 2025 Survey

During the summer of 2025, we ran a survey amongst our community – current parents, past parents, and alumni. In under a week, we had 112 responses, around a 90% completion rate - which is extraordinary. The strength of feeling was overwhelming.

What was clear is that this school is not just working, it's transforming lives, returning investment back to Wales, and growing the Welsh language exactly as Cymraeg 2050 intends.

Here are some of the highlights from the research...

This investment returns to Wales

- **90%** of families have *already moved back, plan to, or say the school has kept that option open.*
- **40%** have *already* returned and transitioned their children into Welsh-medium schools or universities.
- **A quarter like that it has kept that option open for them**
- Alumni are now:
 - Studying at **Cambridge, Aberystwyth, and the University of Pennsylvania (Ivy League).**
 - Working in Welsh-speaking sectors.
- Raising their own children in Welsh. - **80% of past pupils have already or intend to raise their families in Welsh**

“Due to going to The London Welsh School, our boys were fluent in Welsh and were able to transition very easily to their new school after moving back to Wales.”

Welsh language going beyond the classroom

- 100% of past pupils have continued with their Welsh
- 84% of past pupils have or intend to raise their families in Welsh
- Many parents (native speakers) described themselves as *“lapsed” or “disconnected”* before their children joined the school. The school reawakened their Welsh identity, and in many cases **completely transformed their day-to-day use of the language.**
- **There is a massive uplift in connection to Welsh:** Before joining the school, fewer than 4 in 10 parents (39%) felt ‘very connected’ to the Welsh language or culture, but after involvement with the school, this jumped to an overwhelming **96% feeling ‘very connected’.** The school is clearly not just educating children - it's **reconnecting entire families to Welsh identity, culture, and community.**

“I hadn’t spoken Welsh for almost 25 years, and now I speak, message and write in Welsh EVERY day - it’s amazing how the language just came back to me.”

“Before my children attended the school I was a lapsed Welsh speaker... it reignited my love of the language.”

“The London Welsh School helped me to reconnect with my Welsh identity... I became more familiar with the richness of the Welsh culture and language.”

When asked “ultimately, would you have been able to bring up your children as fluent Welsh speakers without the school”, 65% said “no”, 35% said “Possibly, but it would have been difficult”, NOBODY responded “Yes, easily”

Some parents had trialled other options, and dropped them. What we heard:

- Online tools, Saturday schools, Duolingo - none delivered fluency.
- Children resisted extra lessons or lost interest – it felt like a chore
- Parents couldn’t do it alone - especially in mixed-language homes.

But the most important difference? **Peers.**

- Children need to hear and use Welsh with other children, not just in lessons, but in the playground, at lunch, on trips, in jokes and games.
- That’s what **normalises the language** and makes it feel alive, not just academic.
- The school provides full **daily immersion**, which other options simply can’t.

“Only in a school environment with children of the same age would she appreciate Welsh as a living language.”

“Children need to be with other children and the Welsh language needs to be a daily part of life.”

“It is important that children speak naturally to other children - otherwise they just think it’s something academic or that adults speak.”

“The immersion in the language for almost all the time is what made them long-term fluent Welsh speakers.”

“We tried everything... but our child was losing the language. Moving them to YGLI changed everything.”

“Saturday school or online lessons don’t come close. You can’t learn a language fluently for one hour a week.”

These families are living adverts and ambassadors for Welsh language and culture

- We asked respondents “Have you ever told friends, colleagues, neighbours that your child(ren) speaks Welsh and attend/ed a Welsh-language school”, and **99%** say they’d told a lot of people. 87% say “I tell almost everyone / it comes up all the time” 12% “almost everyone/lots” of people.
- Between them, **just these 100 respondents have spread awareness to 30,000+ people.**
- The school sparks admiration and interest across London, from English families, other ethnic communities, and curious passers-by.

“People are always curious... many didn’t realise Welsh was even a living language.”

“Travelling on the tube on St David’s Day... we had many, many conversations over the years.”

It creates community - and community creates Welsh speakers

- **90%** of respondents say they’ve made lasting Welsh friendships through the school.
- It offers belonging, confidence, and identity - for children and parents alike.
- Without it, many say their children *wouldn’t be Welsh-speaking at all.*

“This is my Welsh family in London.”

“It’s the glue that holds us together - it changed our lives completely.”

“We’ve gone from a purely English-speaking home to a truly bilingual one.”

“Making friends with other Welsh families in London was crucial to motivating my children to speak Welsh naturally.”

“Being part of the YGLI community has flipped things - now I feel more involved with my Welshness than I did even when I was back in Wales.”

“It gave me a solid connection with the London Welsh community which has continued for years to the present day.”

We asked respondents to sum up what Ysgol Gymraeg Llundain meant to them in one sentence...

The responses paint a deeply emotional and consistent picture. Key themes include:

Language & Identity

- The school is seen as *essential* to preserving and passing on the Welsh language, culture, and identity - not just to children but across entire families and generations.
- Many say their children simply would not speak Welsh without it.

Family & Community

- Described repeatedly as "*a family*", "*lifeline*", "*extended family*", "*community*", and "*home from home*".
- The school offers a unique sense of belonging in a global city, helping Welsh families stay connected to their roots.

Education & Opportunity

- The education is consistently described as excellent - blending high academic standards with strong cultural values.
- It has given children confidence, bilingual fluency, and access to opportunities both in and beyond Wales.

A Cultural Beacon in London

- The school is widely viewed as the *beating heart* or *cultural hub* of the Welsh community in London - "a little piece of Wales in the capital."
- Its value reaches far beyond its small size - acting as a flag-bearer for Welsh language and identity in one of the most global cities in the world.

Diversity of Families

It's also important to say, these aren't all fluent Welsh-speaking families. Many don't speak Welsh at home. Some are mixed-language households, adoptive families, multicultural families. Parents from Cornwall, Spain, even Italy. And they all chose this school because they wanted to give their children the gift of Welsh - something they couldn't have done on their own.

This school proves that **Welsh isn't just for the Welsh** - it's for anyone who wants to be part of it.

In just a few days, over 100 individuals (past parent, current parent and past pupils) poured their hearts into telling us what this school means to them. The messages are consistent and clear:

- This school **creates new Welsh speakers**.
- It builds **fluency where nothing else works** - not even in homes that already speak Welsh.
- It gives families a reason to stay connected to Wales - and many return, ready to contribute.
- And it does all this while **normalising the Welsh language in London**, reaching tens of thousands of others as living ambassadors for Cymraeg.

Cyllid gofal plant dros 9 mis oed

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2026
Petitions Committee | 26 January 2026

Cyfeirnod RS25/12887-5

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: P-06-1556

Teitl y ddeiseb: Cyllid gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio pan fydd eu plant dros 9 mis oed

Geiriad y ddeiseb: Dylid galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl i'w plant droi'n 9 mis oed. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ar gael nes eu bod yn 3 blwydd oed.

Yn dibynnu ar gymhwysedd, gan gynnwys oedran, mae amrywiaeth o gymorth gofal plant ar gael yng Nghymru, ac a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru, Dechrau'n Deg a'r ddarpariaeth 'addysg y blynyddoedd cynnar'.

Gofal Plant Dechrau'n Deg yw'r unig un o'r rhain sydd ar gael i blant 2 flwydd oed. Caiff y gofal hwn ei ddarparu gan awdurdodau lleol unigol ac nid yw wedi'i gyflwyno'n llawn eto i roi cynnig i bob plentyn 2 flwydd oed ledled Cymru.

Mae papur y Gweinidog mewn ymateb i'r ddeiseb hon yn dweud:

Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yn dilyn etholiadau diwethaf y Senedd yn 2021 - i "fynd ati'n raddol i



*ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, yn ystod cyfnod y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru **derbyniwyd na fyddai hyn yn cael ei gwblhau yn nhymor hwn y Senedd.** [ein pwyslais ni yw y print trwm]*

Mae gan Lywodraeth Cymru dudalen we am gymorth gyda thalu am ofal plant. Rhaid i bob awdurdod lleol gael Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol am ddim i helpu a chynghori rhieni ar opsiynau gofal plant yn ei ardal.

1. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

1.1. Gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy flwydd oed

Yn ei Chytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ymestyn gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn ehangu'n raddol y ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i **gynnwys pob plentyn 2 flwydd oed**. Mae y modd y mae hyn wedi'i gyflwyno hyd yma yn amrywio yn ôl awdurdod lleol.

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd y Gweinidog:

Mae ein rhaglen Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o safon wedi'i ariannu'n llawn i rieni pob plentyn dwy oed cymwys am ddwy awr a hanner y dydd, pum niwrnod yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Mae Dechrau'n Deg yn defnyddio sesiynau gofal plant amlach a byrrach ar gyfer plant iau, gan fod y dystiolaeth yn dangos mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol, yn enwedig ar gyfer plant difreintiedig. [...] Mae'r ddau awdurdod lleol cyntaf – sef Merthyr ac Abertawe – bellach wedi cyhoeddi eu bod wedi gallu cynnig gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy flwydd oed.

Mae Gofal Plant Dechrau'n Deg yn wahanol i'r Rhaglen Dechrau'n Deg lawn, gan fod tair elfen arall i'r Rhaglen lawn ac mae ar gael o fewn ardaloedd daearyddol diffiniedig.

1.2. Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru y Llywodraeth yn darparu hawl i 30 awr yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn i **blant 3 a 4 blwydd oed** rhieni sy'n gweithio

cymwys a rhai rhieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant. Mae'r ddarpariaeth 30 awr yr wythnos yn cynnwys:

- o leiaf 10 awr o addysg y blynyddoedd cynnar (gweler isod); a
- hyd at 20 awr o ofal plant.

Gan ddibynnu ar y darparwyr, gall rhieni ddefnyddio oriau gofal plant a ariennir ar unrhyw adeg yn ystod wythnosau gwyliau, ddydd neu nos, gan gynnwys ar benwythnosau.

1.3. Deg awr o addysg y blynyddoedd cynnar

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnig a darparu addysg feithrin ddigonol yn ddi-dâl ar gyfer pob plentyn yn ei ardal gan ddechrau **yn y tymor cyntaf ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 3 oed** hyd at fis Medi ar ôl i'r plentyn droi'n bedair oed. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau lleol gynnig o leiaf 10 awr am 39 wythnos ar gyfer pob plentyn, waeth beth fo statws cyflogaeth ei rieni. Os oes gan blant hawl i'r Cynnig Gofal Plant (gweler uchod) ychwanegir at yr hawl y blynyddoedd cynnar hon i ddarparu 30 awr.

1.4. Y sefyllfa yn Lloegr o ran cymorth gofal plant ledled y DU.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol sydd ar gael i rieni yng Nghymru, sy'n ddibynnol ar gymhwysedd. I rieni sy'n gweithio, y Cynllun gofal plant di-dreth yw hwn fel arfer. Mae cyfrifiannell gofal plant Llywodraeth y DU yn adnodd sy'n helpu rhieni i wirio pa gymorth posibl sydd ar gael tuag at dalu costau gofal plant.

Yn aml, mae cymariaethau yn cael eu gwneud rhwng y cynigion gofal plant di-dâl yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae hyn yn wedi cynyddu yn dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth flaenorol y DU yn 2023 i ddarparu gofal plant am ddim i blant rhieni sy'n gweithio cymwys o naw mis oed ymlaen erbyn 2025. Mae papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin yn darparu rhagor o wybodaeth. Ehangu gofal plant a ariennir gan y llywodraeth yn Lloegr.

Mae papur y Gweinidog, mewn ymateb i'r ddeiseb hon, yn dweud:

O ran ehangu gofal plant yn Lloegr, mae adroddiadau y gall ehangu cyflym heb ddigon o weithlu a seilwaith arwain at brinder lleoedd mewn rhai ardaloedd, a phryderon ynghylch ansawdd, – rydym yn benderfynol o osgoi hynny. Mae ein dull graddol yn adlewyrchu'r hyn rydym wedi'i ddysgu am

bwysigrwydd cynaliadwyedd ac ansawdd fel rhan o unrhyw ehangu arfaethedig.

2. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cynnal gwaith craffu ar y ddarpariaeth gofal plant yn ystod y Chweched Senedd hon gan gyhoeddi dau adroddiad.

- Gwarchod y Dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio 2022
- Eu Dyfodol: Ein blaenoriaeth? 2024

Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried nifer o ddeisebau ynghylch gofal plant gan gynnwys:

- Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024
- Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr
- Creu ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio

Gwrthododd hefyd y deisebau a ganlyn, gan fod deiseb am y mater hwn eisoes ar waith pan gyflwynwyd y deisebau hyn:

- Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed
- Rhoi Gofal Plant Teg i Rieni Cymru: Ymestyn oriau am ddim o 9 mis, nid dim ond 3 oed
- Gofal plant am ddim am 30 awr yr wythnos i blentyn 9 mis oed hefyd i rieni sy'n gweithio yng Nghymru

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllennwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1556
Ein cyf/Our ref DB/00681/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Rhagfyr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr yn gofyn fy marn am ddeiseb P-06-1556 ynghylch cyllid gofal plant i rieni sy'n gweithio pan fydd eu plant yn +9 mis gan Kathryn Parry.

Rydym yn cydnabod y gall costau gofal plant fod yn gost sylweddol, yn enwedig ochr yn ochr â'r costau byw cynyddol. Mae ein dull Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar (ECPLC) yng Nghymru yn rhoi'r plentyn a datblygiad y plentyn wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn gwybod y gall buddsoddi yn ECPLC gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol plant. Gall hefyd wella eu cyrhaeddiad addysgol a chyfraniad y plentyn at gymdeithas yn y tymor hwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn gofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Rydym yn sicrhau bod £50m ychwanegol ar gael yn 2025-26, gan fynd â chyfanswm y gyllideb i fwy na £150m i gynnal a chynyddu gofal plant o ansawdd uchel yng Nghymru. Rydym wedi canolbwyntio ein hadnoddau yn fwriadol ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn y lle cyntaf, gan weithio yn ôl trefn yr anfantais.

Mae ein rhaglen Dechrau'n Deg yn cynnig gofal plant o ansawdd, wedi'i ariannu'n llawn, i rieni pob plentyn dwy oed cymwys am ddwy awr a hanner y diwrnod, pum diwrnod yr wythnos, am 39 wythnos y flwyddyn. Mae Dechrau'n Deg yn defnyddio sesiynau byrrach ac amlach o ofal plant i blant iau gan fod y dystiolaeth yn dangos mai dyna beth sydd fwyaf effeithiol, yn enwedig i blant difreintiedig. Gall rhieni ychwanegu at yr oriau hyn os oes angen gofal plant ychwanegol arnynt. Mae'r ddau awdurdod lleol cyntaf – Merthyr ac Abertawe – bellach wedi cyhoeddi eu bod wedi gallu gwneud cynnig gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 43
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yn dilyn etholiadau diwethaf y Senedd yn 2021 – 'i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed' – yn parhau. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, yn ystod cyfnod y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru derbyniwyd na fyddai hyn yn cael ei gwblhau yn nhymor hwn y Senedd. Rydym yn awyddus i ddysgu gwersi, gan gynnwys o brofiadau gwledydd eraill, wrth lunio ein polisiau ein hunain. O ran cynllun ehangu gofal plant Lloegr, yr hyn a adroddir yw y gall ehangu'n gyflym heb ddigon o weithlu a seilwaith arwain at brinder lleoedd mewn rhai ardaloedd a phryderon o ran ansawdd – rydym yn benderfynol o osgoi hynny. Mae ein dull o weithredu'n raddol yn adlewyrchu'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu am bwysigrwydd cynaliadwyedd ac ansawdd fel rhan o unrhyw gynllun arfaethedig i ehangu darpariaeth.

Yn ystod 2023–24 a 2024–25, gwnaethom fuddsoddi £46m i ehangu Dechrau'n Deg, a chefnogi dros 13,400 o blant a theuluoedd ledled Cymru, gan ragori ar ein targedau. Mae dros 10,000 o blant wedi manteisio ar leoedd gofal plant Dechrau'n Deg, ac roedd y ganran ar gyfer y nifer sy'n manteisio ar gael lle yn uwch na 80% yn 2024-25.

Dechreuodd Cam 3 o'r cynllun ehangu ym mis Ebrill 2025. Cafodd y cam hwn gymorth ariannol ychwanegol o £25m fel rhan o fuddsoddiad ehangach o £50m mewn gofal plant ar gyfer 2025–26. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb gofal plant i dros £150m. A bydd y cyfanswm hwnnw'n galluogi miloedd yn fwy o blant i elwa ar y gofal, yn ogystal â sicrhau bod gan y sector y gweithlu a'r gallu i gynnal y ddarpariaeth. Bydd nifer y plant y bydd y rhaglen wedi'u cyrraedd erbyn Cam 3 Dechrau'n Deg yn dibynnu ar gyfraddau'r rhai a fydd yn manteisio ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i Gam 3 gyrraedd mwy na 4,000 o blant ychwanegol yn 2025-26.

Fel y byddwch yn ymwybodol rydym hefyd yn darparu'r Cynnig Gofal Plant i blant tair a phedair oed. Mae hyn yn fwy hael na'r cynnig cyfatebol yn Lloegr, ar gyfer 48 wythnos o'r flwyddyn yn hytrach na 38 wythnos, sy'n berthnasol i rieni mewn addysg a hyfforddiant yn ogystal â'r rhai mewn gwaith. Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod yn cadw golwg ar holl bolisiau'r llywodraeth i'w hystyried yn y cylch etholiadol nesaf, ac mae pob plaid ar hyn o bryd yn datblygu cynigion ar gyfer tymor nesaf y Senedd.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,



Dawn Bowden AS/MS

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

P-06-1566: Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeddfu i sicrhau bod Gwarchodfeydd Natur Lleol, gan gynnwys Gwarchodfa Natur Leol Cosmeston, yn cael ystyriaeth lawn

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2026
Petitions Committee | 26 January 2026

Cyfeirnod: SR25/12887-3

Cyflwyniad

Rhif y Ddeiseb: P-06-1566

Teitl y ddeiseb: Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeddfu i sicrhau bod Gwarchodfeydd Natur Lleol, gan gynnwys Gwarchodfa Natur Leol Cosmeston, yn cael ystyriaeth lawn

Geiriad y ddeiseb: Er gwaethaf eu dynodiad statudol, prin iawn yw'r gydnabyddiaeth y mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn ei chael yng nghynlluniau adfer natur a fframwaith bioamrywiaeth Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru rymuso gyfeillion Gwarchodfeydd Natur Lleol a grwpiau bywyd gwyllt drwy atgyfnerthu dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i'w hystyried yn narpariaethau Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Mae rhannau o Warchodfa Natur Leol Cosmeston yn



Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ond nid oes rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru na'r Cyngor adolygu nodweddion dynodedig, diweddarau dynodiadau, na chynhyrchu cynllun rheoli.

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn amddiffyn rhywogaethau, cynefinoedd a safleoedd nythu mewn Gwarchodfeydd Natur Lleol. Nod Cyngor Bro Morgannwg yw gwneud elw o Warchodfa Natur Leol Cosmeston trwy weithgareddau parc dŵr masnachol sy'n gwrthdaro â dibenion gwarchod natur a mwynhad y cyhoedd. Drwy beidio ag asesu'r effeithiau posibl ar fywyd gwyllt a chynefinoedd wrth wahodd cynigion ar gyfer gweithgareddau hamdden ar y dŵr yn 2021 ac Aquapark eleni, ynddengys i'r cyngor dorri ei ddyletswydd mewn perthynas â Gwarchodfa Natur Leol. Mae dyletswyddau cyffredinol ar gyfer bioamrywiaeth a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac ar gyfer adfer natur (NRAP 2015) yn ddiddannedd. Mae Deddf 1981 yn cynnwys dyletswydd i atal gweithgareddau sy'n tarfu ar gynefinoedd dynodedig llygod y dŵr a thelorion Cetti. Pan ddechreuodd telorion Cetti nythu ger y parc dŵr, anwybyddodd y cyngor y 'llain glustogi' ofynnol. Dylai'r Bil newydd gynnwys proses wedi'i diffinio'n glir i'r cyhoedd gael herio cyrff swyddogol wrth i'r rheini lunio cynlluniau rheoli, cyflwyno cynigion am gyllid, ac asesu datblygiadau mewn Gwarchodfeydd Natur Lleol o dan gyfraith gynllunio.

Mae'r testun a ddarperir uchod yn cael ei gyflwyno gan y deisebydd. Mae'r tîm deisebau yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cadw ei lais dilys. Nid yw'r testun hwn wedi'i wirio am gywirdeb, neu wallau, a gall gynnwys barn neu honiadau heb eu gwirio.

The text provided above is submitted by the petitioner. The petitions team make every effort to ensure it preserves their authentic voice. This text has not been verified for accuracy, or errors, and may contain unverified opinions or assertions.

1. Y cefndir

Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn ddynodiadau a wneir gan awdurdodau lleol o dan *Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949*, ac awdurdodau lleol, yn bennaf, sy'n gyfrifol am eu rheoli a'u diogelu. Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn cael eu dynodi yn sgil nodweddion naturiol sydd o ddiddordeb arbennig i'r ardal leol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod oddeutu 100 o Warchodfeydd Natur Lleol yng Nghymru. Gellir gweld eu dosbarthiad ar [MapDataCymru](#).

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

2.1. Polisi cynllunio

O ran y system gynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn categorïddio Gwarchodfeydd Natur Lleol fel dynodiadau natur "anstatudol". Mae hyn yn golygu eu bod yn destun dull gweithredu gwahanol o ran polisi cynllunio, o'i gymharu â dynodiadau "statudol" (gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), sy'n destun mwy o amddiffyniadau.

Designation	Statutorily and Non Statutorily Protected Sites	Interaction with Step-wise Approach
Special Area of Conservation	Statutory	Avoid
Special Protection Area	Statutory	
Ramsar sites	Statutory	
Site of Special Scientific Interest	Statutory	
National Nature Reserve	Statutory	
UNESCO Biosphere Reserve	Non-Statutory	Apply Step-wise Approach to determine
UNESCO Geoparks	Non-Statutory	
Sites of Importance for Nature Conservation	Non-Statutory	
Local Nature Reserve	Non-Statutory	
Local Wildlife Sites	Non-Statutory	
Regionally Important Geodiversity Sites (RIGS)	Non-Statutory	
Potential National Natural Resources Areas (Future Wales)	Development Plan	
Resilient Ecological Networks (RENS) / Nature Network Maps (NRW)	Area Statements/ Green Infrastructure Assessments	

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Ffigur 13, tudalen 154).

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) (adran 6.4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ddilyn “dull fesul cam” o gynnal a gwella bioamrywiaeth, meithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth a darparu manteision net i fioamrywiaeth, drwy sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn cael eu hosgoi yn y lle cyntaf, yna eu lleihau a’u lliniaru, ac fel ateb olaf, eu digolledu. Gellir ystyried datblygiadau mewn dynodiadau anstatudol, er enghraifft Gwarchodfeydd Natur Lleol, yn amodol ar ddilyn y dull gweithredu hwn.

Mewn cyferbyniad, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod rhaid osgoi cynigion datblygu o fewn safleoedd dynodedig statudol yn gyfan gwbl, yn unol â cham cyntaf y dull fesul cam.

Mae'n nodi:

Er nad oes proses statudol i warchod dynodiadau anstatudol ... dylai cynlluniau datblygu a'r broses rheoli datblygu eu hamddiffyn.

...

Cyn awdurdodi datblygiad sy'n debygol o ddifrodi dynodiad natur lleol, dylai awdurdodau cynllunio roi hysbysiad o'r bwriad i gynnal y gwaith i ecolegydd yr awdurdod lleol neu i fudiad amgylcheddol y trydydd sector. Ym mhob achos rhaid cael barn ysgrifenedig ecolegydd yr awdurdod lleol.

Bwriad Nodyn Cyngor Technegol 5 (TAN 5), sy'n ymwneud â chynllunio a chadwraeth natur, yw amddiffyn nodweddion Gwarchodfa Natur Leol drwy eu cynnwys fel ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio (adran 5.5.1). Mae'n ofynnol i ddatblygwyr osgoi niwed i nodweddion y safleoedd hyn lle bo modd.

2.2. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Mae'r ddeiseb yn nodi bod Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn y Warchodfa Natur Leol. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu cydnabod am eu bywyd gwylt a'u nodweddion naturiol pwysig (sy'n cwmpasu'r tir, y môr a dŵr croyw), ac maent yn cael eu gwarchod o dan adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am ddynodi safleoedd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheoli

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn uniongyrchol ar y tir y mae'n gyfrifol amdano, ac yn rhoi cyngor i dirfeddianwyr/meddianwyr eraill ar safleoedd nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol. Fel y nodir uchod, mae gan Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rai amddiffyniadau yng nghyd-destun polisi cynllunio.

Yn ôl asesiad gwaelodlin a gynhaliwyd yn 2020 gan sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oedd cyflwr 52% o nodweddion ar y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn hysbys. Roedd cyflwr 20% ohonynt yn ffafriol, ac roedd cyflwr 28% ohonynt yn anffafriol.

2.3. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys 'dyletswydd bioamrywiaeth' gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Y bwriad yw y dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r broses o ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gweithgareddau bob dydd. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, a rhaid iddynt adrodd ar eu gwaith bob tair blynedd.

2.4. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cynnwys cyfreithiau cyffredinol i amddiffyn bywyd gwyllt, gan gynnwys gwahardd person (heb drwydded) rhag lladd neu gymryd aderyn gwyllt, neu ddinistrio ei wyau neu ei nyth, tra bo'r nyth hwnnw'n cael ei ddefnyddio neu'n cael ei adeiladu.

2.5. Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ar ei daith drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Os caiff ei basio, ei nod yw:

- gosod egwyddorion amgylcheddol ar y llyfr statud i fod yn sail i bob penderfyniad polisi yn y dyfodol;
- sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol (Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru – SLIAC), a fyddai'n dwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol; a

- chyflwyno fframwaith statudol ar gyfer targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Nid yw'r Bil yn creu dyletswyddau newydd penodol ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol. Nod ei ddarpariaethau yw atgyfnerthu'r gofyniad i gyrff cyhoeddus ystyried bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a gweithio tuag at dargedau bioamrywiaeth – er enghraifft, fel rhan o'u dyletswydd bioamrywiaeth o dan adran 6 (uchod).

Byddai SLIAC yn darparu llwybr ar gyfer gwneud cwynion a chymryd camau gorfodi mewn achosion lle nad yw awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. O ran y ddeiseb hon, gallai unrhyw un sy'n pryderu nad yw awdurdod cyhoeddus yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau amgylcheddol cyfreithiol gyflwyno sylwadau i SLIAC, a fyddai'n meddu ar y pwerau i sicrhau cydymffurfiaeth (er enghraifft, drwy ddefnyddio hysbysiadau cydymffurfio, gyda'r posibilrwydd o uwchgyfeirio'r achos i'r Uchel Lys).

2.6. Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Mae'r ddeiseb yn sôn am Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (2021), sef strategaeth bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru.

Er bod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cyfeirio at adfer a chynnal y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig, mae hyn yng nghyd-destun safleoedd sydd wedi'u dynodi'n hanesyddol o dan rhwydwaith Natura 2000 yr UE – rhwydwaith nad yw'n cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol. Fodd bynnag, nod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw adfer a chreu cynefinoedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig “er mwyn creu rhwydweithiau natur a mosaigau”.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw bod y cynllun bioamrywiaeth o dan adran 6, wedi'i ategu gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), yn disodli'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur presennol. Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes, nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol.

2.7. Archwiliad trylwyr ynghylch bioamrywiaeth

Roedd ymarfer Plymio Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru yn 2022 (sy'n gwneud argymhellion parthed cyrraedd y targed byd-eang o ran diogelu 30% o'r tir, y môr a dŵr croyw erbyn 2030, sef y nod '30 erbyn 30') yn cynnwys argymhelliad ynghylch Gwarchodfeydd Natur Lleol:

Canfod ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar rôl Gwarchodfeydd Natur Lleol a chynefinoedd eraill nad ydynt o dan ddynodiad statudol,

fel Safleoedd o Bwys er Cadwraeth Natur, i gyflawni ar gyfer y 30 erbyn 30.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) ymchwiliad i fioamrywiaeth, gan gyflwyno adroddiad ym mis Gorffennaf 2024 ar atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Mae'r adroddiad yn archwilio'r gwaith o reoli safleoedd gwarchodedig yng nghyd-destun y targed byd-eang '30 erbyn 30', ond nid yw'n ymdrin yn benodol â statws Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yw'r prif bwyllgor sydd wedi craffu ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Nid yw ei adroddiad Cyfnod 1 na'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 yn ystyried statws Gwarchodfeydd Natur Lleol yn benodol. Yn hytrach, maent yn ystyried darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion amgylcheddol, y corff llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf P-06-1566
Ein cyf HIDCC/02081/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

27 Tachwedd 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Tachwedd ynghylch Deiseb P-06-1566 ar Warchodfeydd Natur Lleol (LNR), gan gynnwys LNR Cosmeston.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae LNRs yn ei chwarae wrth gefnogi bioamrywiaeth a darparu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â natur. Dynodiadau gan awdurdodau lleol yw LNRs o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn bennaf am eu rheoli a'u diogelu.

Mae gan y system gynllunio gyfrifoldeb allweddol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth. Mae [Polisi Cynllunio Cymru 12 \(PCC\)](#) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac mae'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Mae PCC yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer diogelu dynodiadau natur nad ydynt yn statudol, megis Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Mae'r polisi cynllunio yn nodi ym mharagraff 6.4.31: "Er nad oes proses statudol i warchod dynodiadau anstatudol, yn wahanol i ddynodiadau statudol, mae Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn gwneud cyfraniad hanfodol at sicrhau rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth a dylai cynlluniau datblygu a'r broses rheoli datblygu eu hamddiffyn. Weithiau safleoedd anstatudol yw craidd rhwydwaith hanfodol o gynefinoedd dan fygythiad ac maent yn gallu chwarae rhan hollbwysig i ddiogelu, cynnal, cysylltu ac adfer bioamrywiaeth a chyfrannu at adfer natur a manteision net i fioamrywiaeth. Cyn awdurdodi datblygiad sy'n debygol o ddifrodi dynodiad natur lleol, dylai awdurdodau cynllunio roi hysbysiad o'r bwriad i gynnal y gwaith i Ecolegydd yr awdurdod lleol neu i fudiad amgylcheddol y trydydd sector. Ym mhob achos rhaid cael barn ysgrifenedig ecolegydd yr awdurdod lleol."

Rydym yn disgwyl i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 52
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gennym eisoes ddyletswydd bioamrywiaeth adran 6 gyda'i nod cyffredinol o integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth i swyddogaethau awdurdodau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau drwy eu swyddogaethau a'u gweithgareddau.

Hefyd, bydd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn cryfhau'r fframwaith ar gyfer adfer bioamrywiaeth ledled Cymru. Bydd y Bil hefyd yn helpu i wella'r dull o weithredu dyletswydd bioamrywiaeth adran 6 drwy gyflwyno targedau rhwymol yn gyfreithiol a threfniadau llywodraethu. Er nad yw'r Bil yn creu dyletswyddau newydd sy'n benodol i LNRs, bydd ei ddarpariaethau yn atgyfnerthu'r gofyniad i gyrff cyhoeddus ystyried bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau a phrosesau cynllunio. Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn ddarn hollbwysig o ddeddfwriaeth a fydd yn ein grymuso i ddiogelu ein hamgylchedd ac i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru.

Bydd sefydlu Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru (OEGW) yn darparu llwybr ar gyfer cwynion a gorfodi pan fo awdurdodau cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

Diolch am ysgrifennu ataf ar ran y Pwyllgor Deisebau ar y mater pwysig hwn. Gobeithio y byddwch yn gweld yr ymateb hwn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

P-06-1563 Rhoi'r gorau i'r cynllun i wneud Cymru yn “genedl noddfa”

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2026
Petitions Committee | 26 January 2026

Cyfeirnod: RS25/12887/1

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: P-06-1563

Teitl y ddeiseb: Rhoi'r gorau i'r cynllun i wneud Cymru yn “genedl noddfa”

Geiriad y ddeiseb: Y farn gyffredin ar hyn bryd yw bod mewnfudo wedi mynd yn rhemp a bod angen dybryd rhoi sylw i'r mater. Mae pobl Cymru yn haeddu senedd sy'n siarad ac yn gweithredu drostyn nhw ac er eu lles nhw. Dylid rhoi mwy o ffocws ar wella'r wlad i bobl Cymru a rhoi dinasyddion Cymru yn gyntaf. Mae Cymru ymysg y gwledydd uchaf yn y DU o ran tlodi a digartrefedd; dylid mynd i'r afael â'r materion hyn cyn inni estyn gwahoddiad i'r byd.

The text provided above is submitted by the petitioner. The petitions team make every effort to ensure it preserves their authentic voice. This text has not been verified for accuracy, or errors, and may contain unverified opinions or assertions.

Mae'r testun uchod yn cael ei gyflwyno gan y deisebydd. Mae'r tîm deisebau yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cadw ei lais dilys. Nid yw'r testun hwn wedi'i wirio am gywirdeb, neu wallau, a gall gynnwys barn neu honiadau heb eu gwirio.



1. Y cefndir

1.1. Cyfrifoldebau rhyngwladol

Mae gan y DU gyfrifoldebau cyfreithiol rhyngwladol i ddiogelu ffoaduriaid. Ochr yn ochr â 148 o wledydd eraill, mae'r DU yn rhan o Confensiwn Ffoaduriaid 1951, sef cytundeb byd-eang a oruchwyli'r gan y Cenhedloedd Unedig. Prif egwyddor y Confensiwn Ffoaduriaid yw 'non-refoulement', sef na ddylai ffoaduriaid orfod dychwelyd i wlad lle mae bygythiad difrifol i'w bywydau neu eu rhyddid.

Mae'r DU hefyd yn rhan o gytuniadau eraill sy'n diogelu ffoaduriaid, fel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

O dan y setliad datganoli, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn. Yn 2019, dywedodd Llywodraeth Cymru mai Cymru fyddai 'genedl noddfa' gyntaf y byd. Mae'r cynllun yn esbonio sut y bydd yn sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol a chafodd ei gymeradwyo gan y Cenhedloedd Unedig.

1.2. Cefnogaeth Llywodraeth y DU i ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae Confensiwn Ffoaduriaid 1951 yn disgrifio ffoadur fel a ganlyn:

person sydd y tu allan i'w wlad ei genedligrwydd/chenedligrwydd neu breswylfa arferol; mae ganddo/ganddi ofn ar sail dda o erledigaeth oherwydd ei hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol; ac yn methu neu'n anfodlon manteisio ar amddiffyniad y wlad honno, neu ddychwelyd yno, oherwydd ei bod/fod yn ofni erledigaeth.

Ceisiwr lloches yw:

person sydd wedi croesi ffin ryngwladol i chwilio am amddiffyniad, ond nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch ei gais/chais am statws ffoadur, hyd yn hyn. Mae ceisiwr lloches, felly, yn rhywun sydd wedi cyrraedd gwlad ac wedi gofyn am loches. Hyd nes ceir penderfyniad ynghylch a ydyw'n ffoadur ai peidio, caiff ei alw'n geisiwr lloches.

Yn y DU, nid oes gan geiswyr lloches yr un hawliau â ffoaduriaid neu ddinasyddion Prydeinig. Er enghraifft, ni chaniateir i bobl sy'n ceisio lloches weithio na hawlio budd-daliadau. Mae Llywodraeth y DU yn darparu tai a chefnogaeth ariannol i geiswyr lloches a hefyd yn caniatáu iddynt ddefnyddio gwasanaethau os ydynt yn bodloni'r gofynion cymhwysedd (sef eu bod yn ddigartref neu nid oes ganddynt

arian i brynu bwyd). Os caiff cais am loches ei wrthod, gall person fod yn gymwys i gael cymorth tymor byr o dan adran 4(2) o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.

Darperir llety i geiswyr lloches ond ni chânt ddewis ble yn y DU y byddant yn byw. Bydd ceiswyr lloches sy'n cael cymorth yn cael eu rhoi mewn llety dros dro a reolir gan ddarparwyr ar ran y Swyddfa Gartref.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae mewnfudo yn fater a gadwyd yn ôl ac felly ychydig iawn o ddylanwad sydd gan Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau ar lefel y DU. Yn yr ohebiaeth at y Pwyllgor Deisebau, dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol "[nad] oes gan Llywodraeth Cymru'r pŵer i weithredu nac i atal polisïau a bennir ar gyfer y DU gyfan ar y mater hwn" ac nad yw'n "penderfynu pwy sy'n cael eu lleoli yng Nghymru".

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am amrywiaeth eang o bolisïau sy'n helpu ymfudwyr i integreiddio gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, tai, addysg, cyflogaeth ac mae'n gyfrifol am reoli effeithiau ymfudo a sicrhau bod cymunedau'n gydlynol. Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i groesawu cyfran gymesur o bobl sy'n ceisio lloches yn y DU, sy'n cyfateb i hyd at 5% o'r holl bobl sy'n cyrraedd, ac y bydd yn eu cefnogi i'w helpu i setlo, cael mynediad at wasanaethau ac integreiddio i'w cymunedau, gan sicrhau bod Cymru'n "dal i fod yn genedl ddiogel, groesawgar a chydlynol".

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai Cymru fyddai cenedl noddfa gyntaf y byd. Roedd hyn mewn ymateb i ymchwiliad yn 2016 gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

Mae asesiad effaith a gynhaliodd Llywodraeth Cymru yn crynhoi sut y mae'r polisi: yn ceisio dymchwel rhwystrau i geiswyr lloches ddefnyddio gwasanaethau, gwella cymorth cyflogadwyedd i ffoaduriaid, gwella integreiddio a gwybodaeth am hawliau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a lliniaru amddifadedd, salwch meddwl a digartrefedd.

Diweddarwyd y cynllun fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2024) ac mae'n nodi 10 egwyddor yn hytrach na gweithredoedd penodol. Wrth amlinellu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn 2024 i 2025, dywed:

Bydd y ffocws ar atal yr effeithiau mwyaf niweidiol a brofir gan geiswyr noddfa, megis digartrefedd, cyni, camfanteisio, diweithdra, a salwch meddwl.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Mawrth 2022, trafododd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb i gynnal refferendwm ynglŷn â Chymru'n dod yn genedl noddfa. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y datblygwyd y Cynllun Cenedl Noddfa drwy "ymgyngoriad agored dros gyfnod o dri mis" a bod y crynodeb o'r ymatebion "yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cynllun".

Wrth gwblhau ei drafododd, nododd y Pwyllgor fod "ymgyngoriad eisoes wedi'i gynnal ar y cynllun Cenedl Noddfa, a bod y cynllun hwnnw wedi ennill cefnogaeth eang. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb" ac:

ailadroddodd y Pwyllgor y cynigion diffuant o gymorth a gafwyd gan bobl Cymru, sy'n sefyll mewn undod â phobl Wcráin, a'r gefnogaeth gref a fynegwyd gan Aelodau o'r Senedd, gan atgyfnerthu'r ffaith bod Cymru'n dymuno croesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Ceidwadwyr Cymreig a Reform UK wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu'r cynllun Cenedl Noddfa ar y sail y dylid blaenoriaethu ariannu gwasanaethau cyhoeddus, sy'n diwallu anghenion dinasyddion Cymru, dros feysydd sydd heb eu datganoli.

Ym mis Ionawr 2025 cyflwynodd Andrew RT Davies, AS y Ceidwadwyr Cymreig, gwestiwn ysgrifenedig ynglŷn â chyfanswm cost y cynllun Cenedl Noddfa hyd yma. Yn ei hymateb ar 20 Ionawr 2025, dywedodd Llywodraeth Cymru mai cyfanswm y gwariant net (gwariant minws incwm o ffynonellau allanol) ers 2019 oedd £62,828,557.83. Mae'n esbonio bod tua £51m o'r gwariant net hwn yn gysylltiedig â'r gwaith ymateb dyngarol Wcráin.

Ers hynny, mae Aelodau o'r Senedd y Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno nifer o gwestiynau ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyfanswm cost y cynllun Cenedl Noddfa a manylion am sut y dyrannwyd gwariant. Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar 6 Tachwedd 2025, dywedodd Llywodraeth Cymru mai

£63.87m yw'r ffigur hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025. Esboniodd:

O'r ffigur diweddaredig hwn, cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar ymateb i sefyllfa Wcráin (ers 2022) yw £58.22m sy'n cynrychioli 91% o gyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar Genedl Noddfa. Cyfanswm y gwariant nad oedd yn ymwneud ag Wcráin oedd £5.65m dros y chwe blynedd, sy'n cynrychioli 9% o'r cyfanswm. Mae cyfanswm y £63.87m yn parhau i gynrychioli 0.05% o gyllideb Llywodraeth Cymru rhwng 2019 a 2025.

Yn yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor, dywed fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff anghenion dinasyddion Cymru yn cael eu diwallu a'i bod yn parhau i fynd i'r afael â thlodi, lleihau digartrefedd, a gwella gwasanaethau cyhoeddus i'r holl drigolion. Mae'n ychwanegu bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "hyrwyddo cymunedau cynhwysol lle gall pawb gyfrannu'n ystyrlon at gymdeithas" ac mae'n esbonio:

Mae'r dull hwn o weithredu'n ein galluogi i gydbwysu darparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen noddfa â sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cryfhau a bod anghenion trigolion yn cael eu blaenoriaethu o fewn ein cyfrifoldebau datganoledig.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf P-06-1563
Ein cyf JH-/01039/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr 2025 ynglŷn â Deiseb P-06-1563, a gyflwynwyd gan Luke Thomas ac a gefnogwyd gan lofnodwyr ar wefan deisebau'r Senedd. Darperir yr ateb hwn i'r Pwyllgor Deisebau fel ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â phryderon dinasyddion a chymunedau Cymru. Mae'n bwysig bod yn glir bod polisïau mewnfudo a lloches yn faterion sydd wedi'u neilltuo, ac yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU. Nid oes gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i weithredu nac i atal polisïau a bennir ar gyfer y DU gyfan ar y mater hwn.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu faint o'r bobl sy'n ceisio lloches yn y DU sy'n cael eu lleoli yng Nghymru – nac yn penderfynu pwy sy'n cael eu lleoli yng Nghymru. Mae hwn bob amser wedi bod yn benderfyniad i Lywodraeth y DU yn unig. Rydym wedi ymrwymo i groesawu ein cyfran gymesur o bobl sy'n ceisio noddfa yn y DU – mae hyn yn cyfateb i hyd at 5% o'r holl rai sy'n cyrraedd.

O fewn ein pwerau datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i sicrhau bod Cymru'n dal i fod yn genedl ddiogel, groesawgar a chydlynol. Byddwn yn cefnogi pobl sy'n dod i Gymru, gan eu helpu i setlo, cael mynediad at wasanaethau, ac integreiddio'n llwyddiannus i'w cymunedau. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i fynd i'r afael â thlodi, lleihau digartrefedd, a gwella gwasanaethau cyhoeddus i bob preswlydd, gan sicrhau bod anghenion dinasyddion Cymru yn cael eu diwallu ochr yn ochr â'n hymrwymadau ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cymunedau cynhwysol lle gall pawb gyfrannu'n ystyrlon at gymdeithas. Mae'r dull hwn o weithredu'n ein galluogi i gydbwysu darparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen noddfa â sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cryfhau a bod anghenion trigolion yn cael eu blaenoriaethu o fewn ein cyfrifoldebau datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2016, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau [ymchwiliad](#) i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wneud Cymru'n Genedl Noddfa. O ganlyniad uniongyrchol i'r ymchwiliad hwnnw, gwnaethom gyhoeddi'r Cynllun Cenedl Noddfa yn 2019, a ddiweddarwyd wedyn fel rhan o [Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) (2024).

Mae bod yn Genedl Noddfa yn golygu cefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth a rhyfel ac yn cyrraedd yma i ailadeiladu eu bywydau. Rydym yn eu helpu i integreiddio i fywyd yng Nghymru a chyfrannu'n gadarnhaol i'n cenedl. Credwn fod yr ymateb trugarog hwn yn rhoi'r dechrau gorau posibl i bobl sy'n chwilio am noddfa ac yn helpu gwasanaethau a chymunedau lleol hefyd.

Rwy'n falch o'n gweledigaeth o Gymru fel Cenedl Noddfa, ac yn falch o'r ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau ieuchyd, partneriaid y trydydd sector a chymunedau i wireddu'r weledigaeth hon ledled Cymru. Rwyf hefyd yn falch o'n cymunedau, trefi, dinasoedd, ysgolion a phrifysgolion niferus sy'n dymuno dod yn fannau noddfa a chroeso i'r rhai sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Ar adeg o ansefydlogrwydd byd-eang ac argyfyngau dyngarol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cynnal ein gwerthoedd o drugaredd, croeso a chymuned.

Yn gywir,



Jane Hutt AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

P-06-1567 Condemnio'r grŵp asgell dde eithafol 'White Vanguard' yng Nghymru, ac ymchwilio iddo

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2026
Petitions Committee | 26 January 2026

Cyfeirnod: RS26/12887/2

Cyflwyniad

Rhif y ddeiseb: P-06-1567

Teitl y ddeiseb: Condemnio'r grŵp asgell dde eithafol 'White Vanguard' yng Nghymru, ac ymchwilio iddo

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gondemnio White Vanguard a chymryd camau yn erbyn y grŵp, y mae ei aelodau wedi ymuno â gwrthdystiadau wythnosol y tu allan i'r Holiday Inn Express yn y Rhws, sy'n lletya teuluoedd o Affganistan sydd yma'n gyfreithlon o dan gynllun adsefydlu'r Llywodraeth.

Er bod gwahardd grwpiau eithafol yn fater i Swyddfa Gartref y DU, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru:

- i annog Llywodraeth y DU i ymchwilio i White Vanguard a gwahardd y grŵp;
- i gondemnio'n gyhoeddus weithgaredd neo-Natsïaidd yng Nghymru
- i weithio gyda Heddlu De Cymru a'r cynghorau i ymdrin â bygythiad yr asgell dde eithafol; ac
- i gefnogi cymunedau drwy fentrau gwrth-hiliol a mentrau diogelu.



Rydym yn annog y Senedd i ddangos nad oes lle i gasineb yng Nghymru.

Cyflwynir y ddeiseb hon gan The Vale for Palestine, grŵp cymunedol sydd wedi'i leoli ym Mro Morgannwg.

The text provided above is submitted by the petitioner. The petitions team make every effort to ensure it preserves their authentic voice. This text has not been verified for accuracy, or errors, and may contain unverified opinions or assertions.

Mae'r testun uchod yn cael ei gyflwyno gan y deisebydd. Mae'r tîm deisebau yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn cadw ei lais dilys. Nid yw'r testun hwn wedi'i wirio am gywirdeb, neu wallau, a gall gynnwys barn neu honiadau heb eu gwirio.

1. Y cefndir

1.1. White Vanguard

Mae'r grŵp White Vanguard yn disgrifio ei hun fel a ganlyn:

White Vanguard, are a group of National Socialist activists committed to exercising our rights to protest and the use of freedom of expression within the bounds of United Kingdom law.

Ym mis Mehefin 2025, dywedodd y sefydliad HOPE not Hate (y mae ei waith yn canolbwyntio ar yr asgell dde eithafol drefnedig) fod y grŵp wedi'i ddechrau'n swyddogol ym mis Mawrth ac iddo darddu o'r Youth Alliance (YA). Mae'n adrodd i YA, a oedd yn grŵp bychan hynod wrthsemitaidd, ymsefydlu a chwalu y llynedd.

Mae'r deisebydd yn nodi bod y grŵp White Vanguard yn "arddangos sloganau gwrthsemitaidd, yn perfformio saliwtau Natsïaidd, ac yn lledaenu damcaniaethau cynllwyn hiliol, gan fygwth diogelwch a chydlyniant cymunedol."

Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

Mae'r gwrthdystiadau hiliol parhaus yn y Rhws wedi codi ofn ar drigolion a grwpiau cymunedol. Mae'r protestiadau swnllyd a sarhaus hyn yn bygwth teuluoedd o Affganistan, pobl o bob cefndir a'r unigolion sy'n croesawu ffoaduriaid. Mae protestwyr wedi perfformio cyfarchiadau Natsïaidd, canu camdriniaeth ffiaidd, a pheryglu diogelwch y cyhoedd. Mae'r bygythiad wedi tyfu gyda dyfodiad White Vanguard, y mae ei aelodau yn gwisgo mygydau ac yn dangos symbolau Natsïaidd a sloganau gwrthsemitaidd.

Ar 31 Hydref 2025 cyflwynodd White Vanguard ei ddeiseb ei hun yn galw ar Lywodraeth Cymru i gondemnio a chymryd camau yn erbyn 'Antifa' (mudiad gwleidyddol gwrth-ffasgaidd a gwrth-hiliol asgell chwith)". Gwrthodwyd y ddeiseb gan na chasglwyd y 250 o lofnodion sydd eu hangen i'w chyfeirio at y Pwyllgor Deisebau.

1.2. Deddf Terfysgaeth 2000

O dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, gall Llywodraeth y DU wahardd sefydliadau y mae'n ystyried eu bod yn cymryd rhan mewn terfysgaeth neu'n hyrwyddo terfysgaeth. Ar gyfer dibenion y ddeddf, mae hyn yn golygu bod y sefydliad:

- yn cyflawni neu'n cymryd rhan mewn gweithredoedd terfysgol

- yn paratoi ar gyfer terfysgaeth, yn hyrwyddo neu'n annog terfysgaeth (gan gynnwys clodfori terfysgaeth yn anghyfreithlon), neu
- yn ymwneud â therfysgaeth fel arall.

Pan gaiff sefydliad ei wahardd, mae'n drosedd perthyn iddo neu ei gefnogi. Unwaith y caiff ei benderfynu bod sefydliad yn haeddu cael ei wahardd, caiff ei wahardd ledled y DU gyfan.

Mae Adran 121 y Ddeddf yn diffinio “sefydliad” fel unrhyw gymdeithas neu gyfuniad o bersonau. Ym mis Rhagfyr 2025 roedd 84 grŵp terfysgol rhyngwladol wedi'u gwahardd o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 a 14 sefydliad yng Ngogledd Iwerddon wedi'u gwahardd o dan ddeddfwriaeth flaenorol.

Mae Adran 3 y Ddeddf yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchmynion i ychwanegu sefydliadau at y rhestr yn Atodlen 2 neu eu dileu oddi arni, neu i ddiwygio'r Atodlen mewn rhyw ffordd arall. Mae'r gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac felly mae angen cymeradwyaeth dau Dŷ Senedd y DU arnynt - nid oes rôl i'r deddfwrfeydd datganoledig yn y broses hon. Roedd y gorchmynion gwahardd diweddaraf yn ymwneud â Palestine Action, Maniacs Murder Cult a'r Russian Imperial Movement.

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, mae Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, yn ailadrodd safbwynt Llywodraeth Cymru:

Byddwn bob amser yn cefnogi protest heddychlon sy'n gweithredu o dan y gyfraith, ond ni fyddwn yn caniatáu i eithafiaeth a lleisiau a allai achosi rhwyg rhwng pobl danseilio'r gwerthoedd sy'n ein dwyn ynghyd. Rydym yn parhau i leisio ein gwrthwynebiad cryf ac absoliwt i gasineb ar bob ffurf, fel y gwnes yn ddiweddar drwy Ddatganiad Llafar Mae Casineb yn Brifo Cymru ar 14 Hydref.

Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ailddatgan gosodiad y deisebydd nad yw gwahardd grwpiau o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru. Mae'n ychwanegu:

“Nid yw ein barn ynghylch a ddylid gwahardd grwpiau penodol neu beidio yn ffactor perthnasol yn y ffordd y mae'r Ysgrifennydd Cartref yn gwneud y penderfyniadau hyn.”

Wrth ymateb i'r honiadau a wnaed gan y deisebydd mewn perthynas ag ymddygiad rhai o'r protestwyr yn y Rhws, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei annog i gyflwyno'r dystiolaeth hon i'r heddlu fel yr asiantaeth briodol.

1.3. Protestio a phwerau'r heddlu

Mae hawl unigolyn i ryddid mynegiant a rhyddid i ymgynnull yn cael ei gwarchod gan Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU. Nid yw'r hawliau hyn yn absoliwt, felly mae Llywodraeth y DU wedi deddfu i gyfyngu ar yr hawl i brotestio er mwyn cynnal trefn gyhoeddus i amddiffyn hawliau a rhyddid eraill.

Sefydlodd Deddf Trefn Gyhoeddus 2023 nifer o droseddau sy'n ymwneud â phrotestio, gan gynnwys rhwystro gwaith trafnidiaeth mawr ac ymyrryd â seilwaith cenedlaethol allweddol. Mae yna sawl trosedd arall a allai hefyd fod yn berthnasol i ymddygiad person yn ystod protest, nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r weithred o brotestio, gan gynnwys achosi niwsans cyhoeddus.

Os daw'n gyfraith, bydd y Bil Troseddu a Phlisma yn cyflwyno mesurau pellach gyda'r nod o gyfyngu ar ymddygiadau penodol yn ystod protestiadau, gan gynnwys creu troseddau newydd ynghylch camddefnyddio fflerau a thŷn gwyllt, dringo ar gofebion rhyfel a cheisio osgoi atebolrwydd troseddol drwy i rywun orchuddio ei wyneb i guddio rhag cael ei hadnabod.

Ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu i'r heddlu osod amodau ar brotestiadau rheolaidd sy'n cael effaith aflonyddwch cronol.

Ar ben hynny, ym mis Rhagfyr 2025, lansiodd Llywodraeth y DU adolygiad o ddeddfwriaeth ynghylch protestio i weld a yw'r gyfraith yn parhau i ateb y gofyn, asesu a yw trothwyon a mesurau diogelu yn gywir ac yn effeithiol, ac argymhell diwygiadau a fyddai'n gwella cysondeb, amddiffyn hawliau ac argyhoeddi cymunedau yr effeithir arnynt. Disgwylir adroddiad ym mis Chwefror 2026.

Pan ofynnwyd iddi ym mis Gorffennaf 2025 ynghylch yr hawl i brotestio, dywedodd y Prif Weinidog:

Yn amlwg, mae'n rhaid cael llinell o ran torri'r gyfraith ac o ran ysgogi casineb hiliol. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn glir iawn ynghylch hynny, ond, yn fy marn i, mae'r hawl i brotestio yn hawl sanctaidd o ran sut rydym ni'n ei wneud yng Nghymru, ac mae'r rhain mewn gwirionedd yn erthyglau 10 ac 11 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n sicrhau pobl o'r hawl i allu mynegi eu hunain yng Nghymru.

Yn yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, mae hi'n ailddatgan cefnogaeth i brotestiadau heddychlon ond yn ychwanegu na ddylai eithafiaeth na lleisiau anghydfod, danseilio'r "gwerthoedd sy'n ein dwyn ynghyd."

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i gefnogi cydlyniant cymunedol drwy fentrau gwrth-hiliaeth a diogelu. Amlygwyd y rhain gan y Prif Weinidog ym mis Medi 2025 pan ofynnwyd iddi ba gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag eithafiaeth asgell dde:

We'll never tolerate hate in Wales. That's why the Welsh Labour Government has invested £1.6m in our Community Cohesion Programme. We've supported 7,000 hate crime victims. We're running our Hate Hurts campaign this autumn and we're working with schools and police to stop extremism at its root. While Reform thrives on division, Welsh Labour brings people together because in Wales we choose unity, and we're proud to be a nation where everyone belongs.

Prif ymyriad Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi cydlyniant yw'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, a sefydlwyd yn 2009. Mae'n weithredol ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru ac mae wedi'i rhannu'n wyth o 'ranbarthau cydlyniant' sy'n darparu fframwaith Cymru gyfan i ymateb i anghenion cymunedau lleol.

Yn 2019, yn sgil aran ychwanegol, helaethodd y timau cydlyniant i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys monitro tensiynau cymunedol a meithrin cysylltiadau da. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu cynllun gwaith rhanbarthol ar y cyd â llywodraeth leol ac yn monitro cynnydd bob chwarter. Yn ei gohebiaeth, dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol bod y rhaglen wedi derbyn £1.6 miliwn o ganlyniad i gynnydd o 25% mewn cyllid eleni, gan ychwanegu bod y rhaglen "yn fecanwaith allweddol i helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i fonitro a lliniaru tensiynau o fewn cymunedau ledled Cymru".

Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch Mae casineb yn brifo Cymru gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o effaith troseddau casineb ar ddioddefwyr o gymunedau ethnig leiafrifol. Bydd deunyddiau amrywiol yr ymgyrch yn mynd i'r afael â dioddefwyr, troseddwyr a'r rhai sy'n dyst i droseddau casineb. Bydd deunyddiau ymgyrchu yn cael eu datblygu gyda phobl sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddau casineb hiliol. Ym mis Chwefror 2023, fe wnaeth

Llywodraeth Cymru ail-lansio'r ymgyrch Mae casineb yn brifo Cymru gyda gweithgareddau i'r cyfryngau drwy gydol y flwyddyn gyda'r nod o rymuso dioddefwyr a thystion i roi gwybod am droseddau casineb. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer yr ymgyrch o fwy na 80% yn 2025-26 gan ganolbwyntio ar helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn dysgu am y cymorth sydd ar gael.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022. Mae'r cynllun yn cynnig gweledigaeth o Gymru sy'n wrth-hiliol erbyn 2030 ac yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â hiliaeth a gwneud newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Cynllun yn cynnwys nod i

Sicrhau bod Cymru yn parhau i anelu at fod yn wlad wrth-hiliol sy'n lle diogel i fyw ynddi, drwy ddileu agweddau atgas a chefnogi'r rhai sy'n dioddef troseddau casineb â chymhelliant hiliol.

Yn y diweddariad o'r Cynllun yn 2024, ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau casineb sydd yn cynnwys:

[...] gwaith ataliol, darparu cymorth i ddioddefwyr, a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, drwy ariannu a chyflwyno Canolfan Cymorth Casineb Cymru, ymgyrch Casineb yn brifo Cymru, a Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymadau casineb a chydlyniant yn y Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Bwrdd Casineb a Thensiwn Cymunedol sy'n cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a Llywodraeth Cymru. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn ailddatgan yr ymrwymiad i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030 ac i'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2024, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ymchwiliad i'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu a daeth i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei gweledigaeth o Gymru wrth-hiliol. Fe wnaeth rhan fwyaf y sefydliadau a rannodd eu barn â'r Pwyllgor gymeradwyo

gweledigaeth a chwmpas cynhwysfawr y Cynllun, ond cododd y rhan fwyaf ohonynt bryderon ynghylch ei weithredu a chyflymdra'r cynnydd. Mae'r strategaeth wedi'i hadnewyddu yn adlewyrchu rhai o argymhellion y Pwyllgor, yn enwedig ynghylch yr angen i gryfhau arweinyddiaeth gyffredinol y cynllun.

Mewn ymateb i densiynau cynyddol o fewn cymunedau yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ymchwiliad i gydlyniant cymdeithasol yn 2025. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Fonesig Khan (cyn gynghorwr i Lywodraeth y DU) a gyfeiriodd at dirwedd o eithafiaeth sy'n esblygu ac yn cyflymu.

Mae adroddiad y Pwyllgor, Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes: rhaid i Gymru weithredu, yn tynnu sylw at heriau cynyddol i gydlyniant cymdeithasol ac yn galw am gamau gweithredu cydlynol brys. Argymhellodd sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant Cymdeithasol gyda chynrychiolwyr o lywodraeth leol, yr heddlu, timau cydlyniant, y trydydd sector a'r Bartneriaeth Mewnfudo Strategol, i ddyfeisio camau i'w gweithredu ar unwaith, ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mewn ymateb i'r bygythiadau cynyddol i gydlyniant cymdeithasol o ganlyniad i gynnydd mewn safbwyntiau a gweithgareddau eithafol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Grŵp Arbenigol gynnal gwaith i nodi'r heriau y mae hyn yn eu peri i Gymru a nodi'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â gweithgareddau'r asgell dde eithafol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ar unwaith a sefydlodd grŵp arbenigol dan gadeiryddiaeth Gaynor Legall. Cyfarfu'r grŵp ar 20 Tachwedd 2025 a disgwylir i'w argymhellion gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2026.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1567
Ein cyf/Our ref JH-/00977/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

1 Rhagfyr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Tachwedd ynglŷn â'r ddeiseb a gyflwynwyd gan y sefydliad cymunedol, *the Vale for Palestine*.

Mae'r honiadau am ymddygiad rhai o'r protestwyr yn y Rhws yn destun pryder, a byddem yn annog y deisebwyr i gyflwyno unrhyw dystiolaeth i'r Heddlu, fel yr asiantaeth briodol. Byddwn bob amser yn cefnogi protest heddychlon sy'n gweithredu o dan y gyfraith, ond ni fyddwn yn caniatáu i eithafiaeth a lleisiau a allai achosi rhwyg rhwng pobl danseilio'r gwerthoedd sy'n ein dwyn ynghyd. Rydym yn parhau i leisio ein gwrthwynebiad cryf ac absoliwt i gasineb ar bob ffurf, fel y gwnes yn ddiweddar drwy Ddatganiad Llafar Mae Casineb yn Brifo Cymru ar 14 Hydref.

Fel y mae'r ddeiseb yn ei gwneud yn glir, nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gwahardd grwpiau. Nid yw ein barn ynghylch a ddylid gwahardd grwpiau penodol neu beidio yn ffactor perthnasol yn y ffordd y mae'r Ysgrifennydd Cartref yn gwneud y penderfyniadau hyn. Ni fyddai hefyd yn briodol i Lywodraeth Cymru 'ymchwilio' i weithredoedd grwpiau eithafol. Mae ymateb yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol y tu allan i gylch gwaith ein cyfrifoldebau.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael â chasineb a rhagfarn yng Nghymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a rhanddeiliaid eraill i fonitro a lliniaru tensiynau cymunedol, a thawelu meddwl aelodau'r cymunedau hynny pan fo angen. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi cymunedau drwy fentrau gwrth-hiliaeth. Ac rydym yn anelu at greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030, drwy ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n nodi ystod o amcanion er mwyn cyflawni newid ystyrlon.

